8.47

# CERDD DDADLEUOL AM BRIODAS,

SEF,

Ymddyddan rhwng SOLINUS, astudiwr oedd wedi addunedi i weddwdod:—THALAMIUS, un â'i fryd i briodi:—JUFENTUS, llencyn gweddw heb sefydlu ei feddwl:—OURANIUS, difinydd:—MARITUS, gwr priod.

---

GAN Y DIWEDDAR

**BARCH. WILLIAM WILLIAMS,**

PANTYCELYN.

---

CAERFYRDDIN:

ARGRAFFWD AC AR WERTH GAN M. JONES, HEOL-PRIOR.

---

*Pris Tair Ceiniog.*

# CERDD DDADLEUOL.

---

*Jufentus.*

1 P'ODD bellach bydd in' dreulio
Ein dysg a'n doniau 'nghyd?
Pa ffordd sydd fwyaf buddiol
In' fyned trwy y byd?
Ai'n weddw mewn monachlog,
Neu fod wrth wraig yn nglyn?
Ei reswm a'i brofiadau,
Wel, d'weded pob yr un.

*Solinus.*

2 Mae hyny'n ddigon eglur,
Mai hawsach yw y gwaith,
I'r ysgafn droed ei hunan
Fyn'd trwy'r anialwch maith;
Na chario beichiau trymion,
Digysur yn ei gôl;
Sef llusgo gwraig ac eppil
Trwy'r d'rysni ar ei ol.

*Thalamius.*

3 'Rwy'n credu'n llwyr wrthwyneb,
Ac mi wnaf hyny'n glir,
Trwy 'sgrythyr y gwirionedd,
Os sefwch yma'n hir;
Mai sanctaidd yw priodas
Er creadigaeth byd;
Mai'r cyntaf o ordinâdau
Oedd cyplu dau yn nghyd.

4 A bod priodas sanctaidd
O wr a gwraig yn un,
Yn gysgod o'r briodas,
Rhwng y Messia â dyn;

Mae Paul wrth olrhain undeb
Y cwlwm diwahan,
Yn dweud ei fod yn meddwl
Am Grist a'i eglwys lân.

*Solinus.*

5 Os oedd priodi Adda,
Yn *dype* o'r marwol glwy',
'Nol cwympo 'fu priodas
Ddim cysgod o honi mwy;
Nid yw hi 'nawr ond arwydd
Rhaid i lygredig ddyn,
Wrth ryw bleserau ereill
Heb gwmp'ni Duw ei hun.

*Thalamius.*

6 Pan dynwyd ar y cyntaf
Yr asen dan y fron,
A gwneud creadur menyw
Hawddgaraf erioed o hon;
Dangosodd hyn nad perffaith
Un gwr o tan y ne',
Nes delo'r asgwrn hwnw
Drachefn idd ei le.

*Solinus.*

7 Y boreu gwnaed priodas
Yn dda a hawddgar iawn;
Ond rhyfedd yr ysgariad
Ddaeth ynddi hi brydnawn:
Fe geisiodd Adda briod
Pan oedd e'n berffaith ddyn,
Yn fuan hon a'i 'speiliodd
O'i ddoniau bob yr un.

8 Mae'r unrhyw ddyfais eto
Wrth ferched Efa'n nghlŷn;
Os gallant ddim ond unwaith
Ledrata calon dyn,
Hwy 'i tynant ef i waered
At ryw bleserau mân,

I fwyta o bren gwybodaeth
Waharddwyd iddo o'r bla'n.

*Thalamius.*

9 Beth os y wraig a gwympodd,
Ac fu'n y trosedd mawr;
Ond hi a gadd addewid,
O dori'r ddraig i lawr:
Ac yn y nef oreudeg,
Bydd myrdd o honynt hwy;
Os daeth hi â melldith greulon,
Hi ddaeth â bendith fwy.

10 A gwragedd oedd yn canlyn,
Gan weini o bryd i bryd,
Pob peth oedd angenrheidiol
I Brynwr mawr y byd;
Hwy saf'sant gyda'u gilydd,
Yn gryno wrth y groes,
Pan oedd ein Harglwydd hyfryd,
Yn goddef angeu loes.

*Solinus.*

11 'Rwy'n addef bod myrddiynau,
Thalamius, yn ddible,
Yn mhlith holl ferched Adda,
Yn teithio tua'r ne';
Ond beth, 'raid eu priodi?
Pob teulu wrtho 'i hun,
Aed meibion gyda'u gilydd,
A merched hwythau'r un.

12 Rhag ofn cael dy dwyllo,
Mae cryfach nwydau a dawn
I dwyllo gan y fenyw,
Na gwrryw lawer iawn,
O cofia wraig Iehoram,
Merch *Ahab ydoedd hi, 2 Bren. 8. 18.
Nid gwell na hon o bosibl,
Thalamius, fydd i ti.

*Thalamius.*

13 Na ddywed yn wrthwyneb
I'r 'sgrythyr fawr ei dawn,
Sy'n d'wedyd fod priodi
Yn mhawb yn addas iawn,
Cyfreithlon yw ei phleser,
Hardd a sancteiddiol yw,
Dihalogedig wely
Yn unig foddia Dduw.

*Solinus.*

14 I rai fo'n ynfyd anllad
Rhyw feddyginiaeth yw,
Lladd pleser trwy ei wneuthur,
Ac felly'r chwant yn byw;
On'te 'does un gorchymyn
I arall îs y nen,
I roddi ffwrdd eu gweddwdod,
A chym'ryd gwraig yn ben.

*Thalamius.*

15 Tri dyben gwnawd priodas,—
Dybenion goreu'n fyw;
Sef, goch'lyd brwnt odineb,
A meithryn plant i Dduw:
I gael rhyw gyfeillgarwch,
Mewn hawddfyd mawr didrai,
Ac i gael nerthu eu gilydd
Tan orthrymderau a gwae.

16 Nid oes dybenion penach
Na rhai'n o fewn y byd;
Mae crefydd a moesoldeb
Yn gryno yma'n nghyd;
Dysgyblaeth gwlad ac eglwys,
Dysgyblaeth teulu yw,
Ac 'does ond annybendod
Fyth heb y rhai'u o fyw.

*Solinus.*

17 'Does nemawr yn priodi
I feithrin plant i Dduw,
Er pledio pawb ddybenion
O ardderchogaf ryw;
Fe oera'r cariad cyntaf
Yn glau os try y rhod,
A dyna brofedigaeth
Nad oes o'i bath yn bod.

*Thalamius.*

18 Mae dau erioed yr gryfach,
Medd Solomon, nag un;
I wr ymgeledd gymhwys
Yw gwraig, medd Duw ei hun;
Pa fodd cynhesa'r unig
Pan ddelo llif didrai?
Fe gur y don ei ysbryd,
Mae'n siwr o lwfrâu.

*Solinus.*

19 Nid oes ond 'chydig donau
Ddaw 'gwrdd â gweddw ddyn;
Ar rieni plant gan mwyaf,
Y daw cystuddiau'n un;
A thi gai wel'd, Thalamius,
Nad ydyw gwraig ond gwan
Mewn dyfroedd o gystuddiau,
I ddal dy ben i'r lan.

*Thalamius.*

20 Mae Lemuel ddysgedig
Yn dweud mewn geiriau llawn,
Mai gwraig yw'r trysor goreu
O tan y nef a gawn;
Mae'n well na llong marsiandwr,
Yn dwyn trysorau mwy;
'Does neb ond ti, Solinus,
Neu'th fath, fydd hebddynt hwy.

21 Mae'n well nag aur ac arian,
   Yn well na'r moroedd mawr,
Yn well na'r holl drysorau
   Sydd yn y dwyrain wawr;
Mae'n well na'r perlau goreu,
   Yn well na'r beril drud,
Mae menyw'n well ei hunan
   Na'r cyfan yn y byd.

*Solinus.*

22 'Dyw hono ond un o gannoedd,
   Pe cawn y fath fy hun,
Nis gwaeth, er mor anhawsed,
   O fod wrth wraig yn nghlŷn;
Ond gwell bod mewn monachlog,
   Heb weled menyw mwy,
Na ch'lymu mewn priodas
   A rhai o honynt hwy.

23 A hono fel y defni
   Parâus yn d'od i lawr,
Bob pryd yn dwrf anesmwyth,
   Rai prydiau'n storom fawr,
Yn tuchan, yn anfoddlon,
   Yn berwi ynddi ei hun,
Yn erbyn rhagluniaethau,
   Yn erbyn Duw a dyn.

*Thalamius.*

24 Anrhydedd yw priodas:
   Cysylltu dau yn nghyd,
Arferir o'r gorllewin
   I ddwyrain eitha'r byd;
Ac nid oes unrhyw ardal
   Ar wyneb daear lawr,
Nad yw priodas ynddi
   Erioed o enw mawr.

*Solinus.*

25 Nid gras sy'n rhai paganiaid
   Yn mharthau pella'r byd;